## Cyfarwyddwr RCS

## Swydd Ddisgrifiad

*Rôl y Bwrdd RCS yw bod yn atebol ar y cyd yn gyfreithiol ac yn foesol am iechyd ac effeithiolrwydd RCS, gan sicrhau bod RCS yn cyflawni ei genhadaeth mewn modd moesegol, eglur, atebol a gochelgar.*

Prif rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr yw:

- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd (tua chwe chyfarfod y flwyddyn - ar-lein neu wyneb yn wyneb)
- Gweithredu fel llysgennad i RCS, gan adlewyrchu ei werthoedd, a hyrwyddo ei genhadaeth.
- Gwneud cyfraniad creadigol a rhagweithiol at dwf parhaus hirdymor RCS, gan helpu'r Bwrdd i feithrin cyfleoedd a mynd i'r afael â heriau
- Darparu mewnbwn profiadol perthnasol i'r Bwrdd, gan gynnwys gwybodaeth arbenigol, sgiliau a chymwyseddau a enillwyd yn y gweithle a thu hwnt
- Goruchwylio gweledigaeth, cyfeiriad a strategaeth RCS drwy gynllun busnes y cytunwyd arno.
- Hyrwyddo ac amddiffyn cynaliadwyedd ariannol hirdymor RCS.
- Sicrhau effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth RCS, gan gynnwys Rheolaeth Bwrdd, gan sicrhau bod y Cwmni yn gweithredu gyda'r lefelau uchaf o onestrwydd.
- Penodi, cefnogi a gwerthuso'r Prif Weithredwr
- Gosod targedau a mesur cynnydd, sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, gan sicrhau bod strategaethau rheoli risg digonol ar waith
- Cyfrannu at waith is-bwyllgorau a thimau prosiect yn ôl yr angen, gan ddod ag arbenigedd neu sgiliau ymarferol penodol
- Darparu cymorth ymarferol gyda recriwtio a monitro aelodau allweddol o staff yn ôl yr angen, gan gynnwys Cyfarwyddwyr newydd.
- Cynrychioli RCS mewn digwyddiadau allweddol - e.e digwyddiadau cyhoeddi gwasanaeth, cynadleddau etc.
- Darparu beirniadaeth bwyllog a gwrthrychol.
- Ymrwymo i ddatblygiad parhaus, gan ymgymryd â gweithgareddau datblygu priodol yn ôl yr angen.

## Manyleb person

| HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|
| • Gwybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd perthnasol, yn ddelfrydol, iechyd neu fusnes<br>• Sgiliau dadansoddi<br>• Y gallu i weithredu fel rhan o dîm Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysiant | • Profiad blaenorol o weithio ar lefel Bwrdd<br>• Profiad o weithio mewn cyd-destun iechyd neu mewn cyd-destun datblygu busnes/entrepreneuraidd<br>• Profiad hyfforddiant / mentora<br>• Y gallu i ddeall a dehongli adroddiadau ariannol<br>• Profiad o fod yn ddefnyddiwr/wedi bod yn ddefnyddiwr gwasanaethau cysylltiedig â'n maes gweithredu |